

Datganiad Consensws Rhyngwladol Ffederasiwn ADHD y Byd: 208 o Gasgliadau ar sail Tystiolaeth am yr Anhwyllder

Crynodeb

Cefndir: Mae camsyniadau ynghylch ADHD yn gwarthnodi pobl yr effeithir arnynt, yn lleihau hygredded darparwyr, ac yn atal/gohirio triniaeth. Er mwyn herio camsyniadau, gwnaethom guradu canfyddiadau gyda sylfaen dystiolaeth gref.

Dulliau: Adolygon ni astudiaethau gyda mwy na 2,000 o gyfranogwyr, neu fetadadansoddiadau o bum astudiaeth neu fwy, neu 2,000 neu fwy o gyfranogwyr. Gwnaethom eithrio meta-ddadansoddiadau nad oeddent yn asesu tuedd cyhoeddi, ac eithrio meta-ddadansoddiadau o fynychder. Ar gyfer meta-ddadansoddiadau rhwydwaith, roedd angen plotiau twmffat wedi'u haddasu yn ôl cymariaethau. Gwnaethom eithrio astudiaethau triniaeth gyda rhestr aros neu driniaeth fel rheolyddion arferol. O'r llenyddiaeth hon, gwnaethom echdynnu honiadau ar sail tystiolaeth am yr anhwylder.

Canlyniadau: Cynhyrchon ni 208 o ddatganiadau a gefnogir yn empirig am ADHD. Mae statws y datganiadau sydd wedi'u cynnwys fel 'cefnogir yn empirig' yn cael ei gymeradwyo gan 79 awdur o 27 gwlad a 6 chyfandir. Mae cynnwys y llawysgrif yn cael ei ardystio gan 362 o bobl sydd wedi darllen y ddogfen hon ac yn cytuno â'i chynnwys.

Casgliadau: Mae llawer o ganfyddiadau ym maes ADHD yn cael eu cefnogi gan fetadadansoddiadau. Mae'r rhain yn ategu datganiadau cadarn am natur, hynt, achosion deilliannau, a thriniaethau ar gyfer anhwylderau, sy'n ddefnyddiol ar gyfer lleihau camsyniadau a gwarthnod.

Allweddeiriau: ADHD, diagnosis, triniaeth, hynt, deilliannau, geneteg, ymennydd

Am yr erthygl lawn (yn Saesneg) gweler: